**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 29 Gorffennaf 2025 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Eynon, Anthony Jenner, Ffion John, Tudur Lewis, Dennis Jones, Michael Fussell, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** - Rebecca Jaimangal-Jones (Is-gadeirydd), Julian Williams, Cyng Dorian Phillips

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod. Estynnwyd cydymdeimladau i MF ar golli ei dad yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Robert James gyda'r caffi newydd wedi agor.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 3/6/2025:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 3/6/25 yn gywir gan FfJ ac eiliwyd gan MF.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithredu: JM i gynhyrchu poster gyda logo Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer yr hysbysfwrdd cymunedol.**
  JM i gael mwy o fanylion ynglyn â chyfarfodydd y cynghorwyr gyda Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer creu poster.

- **Cam gweithredu: DJ i ofyn ymhellach i'r rhai sydd â diddordeb mewn clirio'r llwybr troed yn Efailwen.**
  DJ i ofyn i berchnogion Llwyn-yr-Ebol am glirio'r llwybr troed yn Efailwen a chadarnhau manylion y clirio. Does dim arian ar gyfer gosod ffens. Mae 2 neu 3 wedi mynegi diddordeb i glirio'r llwybr.

- **Cam Gweithredu: Cynllun Gweithredu a Pholisi Bioamrywiaeth y Cyngor i'w hadolygu yn y cyfarfod nesaf.**
  JM i anfon y cynllun gweithedu bioamrywiaeth wedi ei ddiweddaru allan at bawb mewn e-bost, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

- **Cam Gweithredu: JM i drefnu noddi cystadleuaeth gwerth £200 ar gyfer yr Eisteddfod.**
  Cadarnhodd JM bod y Cyngor wedi noddi 3 cystadleuaeth gwerth £350 (£200 a £156): 2il wobr actio drama neu waith dyfeisiedig am £200; 3ydd wobr cyflwyniad theatrig am £90; 3ydd wobr monolog 16 – 19 am £60. Bu rhaid i JM dalu arlein, felly JM i'w had-dalu.

- **Cam Gweithredu: Cynghorwyr nad ydyn nhw am dderbyn y lwfans cydnabyddiaeth blynyddol i hysbysu JM drwy e-bost cyn gynted.**
  Cadarnhawyd bod y canlynol wedi derbyn y lwfans cydnabyddiaeth o £156 ar gyfer 2024/25: RD, RJJ, AE, DJ, TL, AJ, JW, MF. Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan FfJ nad oedd am dderbyn lwfans.

## 4. Gohebiaeth

- Derbyniwyd ffurflen cais am gymorth ariannol oddi wrth Y Cardi Bach am £500. Gwnaed cyfraniad tua'r amser hyn llynedd; os na chawn nhw gyfraniad tan fis Tachwedd, bydd eu cyfrifon blynyddol yn dangos nad oedd cyfraniad gan y Cyngor ar gyfer Medi 2024 – Awst 2025. Cytunwyd glynu at y broses newydd o ystyried yr holl geisiadau am gymorth ariannol yng nghyfarfod mis Tachwedd, yn unol â'r hyn sydd ar wefan y Cyngor.
- Derbyniwyd ffurflen gais am gymorth ariannol gan yr Eisteddfod am £1,500. Y disgwyliad yw bod y Cyngor yn gwneud dau gyfraniad, un eleni ac un yn gynnar y flwyddyn nesa hefyd gan y bydd mis Tachwedd 2026 yn rhy hwyr. Cytunwyd ei ystyried ym mis Tachwedd fel rhan o'r broses ffurfiol o ddelio â cheisiadau am gymorth ariannol.
- Hyfforddiant Côd Ymddygiad – anfonwyd recordiad a chyflwyniad o'r hyfforddiant côd ymddygiad at bawb.
- **Cam gweithedu: Pawb i wrando ar y recordiad a darllen y cyflwyniad a chadarnhau mewn e-bost eu bod wedi gwneud.** Bydd JM yn cofnodi hyn ar gynllun hyfforddiant y Cyngor, sydd bellach yn ddisgwyliad gorfodol.
- Anfonwyd rhestr o hyfforddiant Un Llais Cymru at bawb ar gyfer y misoedd nesa. Cynghorwyr i roi gwybod os hoffen nhw gofrestru ar unrhyw sesiwn. Dywedodd JM ei bod yn bwriadu cofrestru ar gyfer y modiwl Cyllid.

## 5. Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau

- Cadarnhaodd JM mai'r balans ar 18/7/25 oedd £4,571.71 a bod y taliadau yn dilyn y cyfarfod diwethaf i gyd wedi cael eu prosesu.

Arwyddo Sieciau

- Taliadau lwfans i Gynghorwyr, sef £156 yr un, felly cyfanswm o £1,248
- Cyflog y clerc o ddechrau Ebrill i ddiwedd Mehefin (y chwarter 1af) - £434.35
- Llogi Caffi Beca - £25.00
- Noddi cystadlaethau'r Eisteddfod: ad-daliad o £350 i JM
- Cyfanswm o £2,057.35 o daliadau i'w gwneud a fydd yn gadael £2,514.36.

## 6. Cynllunio

- Cyflwynwyd 3 chais cynllunio ers y cyfarfod diwethaf:
  - PL/09438 - Mynediad newydd i gerbydau - Pen Feidr, Login
  - PL/09459 - Codi adeilad amaethyddol (ail -gyflwyno cais cynllunio PL/06080) - Tir ger Llwynceirios, Hebron
  - PL/09457 - Trosi adeiladu allanol i lety - Pant Y Blodau, Efailwen
- Ni fynegwyd sylwadau na gwrthwynebiad i'r ceisiadau uchod. Fodd bynnag, derbyniwyd e-bost gan gynrychiolydd y Fforwm Mynediad Lleol yn gwrthwynebu cais cynllunio PL/09457 gan fod y datblygiad yn agos iawn at lwybr troed FP4/9. Trafodwyd y mater a nodwyd nad yw'r datblygiad ar y llwybr troed, bod dau wrthwynebiad wedi'u cyflwyno a bod y dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi mynd heibio.

## 7. Diweddariad y Cynghorydd Sir

Rhannodd JM y diweddariad canlynol a dderbyniwyd gan y Cyngh DP:

- Mae'r broblem wastraff cynyddol mewn eiddo yn yr ardal, sydd bellach yn bryder iechyd cyhoeddus, yn cael ei thrin gan y Cyngor Sir. Bydd DP yn parhau i ddilyn y mater.
- Bydd y Bwrdd Dŵr yn brysur yn Llanglydwen am gyfnod o 6 wythnos.
- Mynegwyd diolch i DP am sicrhau'r gwelliannau i'r ffordd o Glandy Cross i Garnwen.
- Adroddwyd problem goryrru ar hyd Glandy Cross ac Efailwen

Cam gweithredu: DP i riportio problem goryrru yn Glandy Cross ac o gwmpas Efailwen

- Adroddwyd bod y gwaith o dorri'r cloddiau yn araf iawn i lawr i Bont Cwmiles a hefyd o Bantycaws i Langlydwen.

  **Cam gweithredu: DP i ddilyn lan arafwch torri'r cloddiau**

**8. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Dywedwyd bod unigolyn wedi cynnig dod â winsh i symud rhai o'r coed sydd wedi cwympo ar lwybr cyhoeddus Pantyrodyn ond does ganddo ddim tystysgrif llif gadwyn. Cytunodd pawb mai gwell fyddai peidio â bwrw ymlaen â hyn gan nad yw yswiriant y Cyngor yn cyfro hyn.

**9. Bioamrywiaeth**

- Mae JM wrthi'n diweddaru'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth a bydd yn ei anfon at bawb mewn e-bost ar gyfer unrhyw sylwadau ac i'w drafod yn y cyfarfod nesa.

**10. Unrhyw Fater Arall**

- Dywedodd JM bod un o ymddiriedolwyr Capel Hebron wedi cysylltu yn dweud bod eu cyfreithiwr nhw wedi cadarnhau bod y chwiliadau cyfreithiol wedi eu cwblhau a bydd y gwaith papur gyda'r arwerthwyr wythnos hyn. Felly, maen nhw'n agosáu at werthu drwy ocsiwn.
- Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi derbyn grant SPF a fydd yn cynnwys gwneud gwelliannau ar y llwybr troed o Coynant i Maenhir ac i Bachsylw

  **Cam gweithredu: JM i roi copïau o fapiau'r llwybrau troed sy wedi cael eu hadfer ar y wefan a QR côd ar yr hysbysfyrddau**
- Gofynnodd MF a fyddai'r Cyngor yn fodlon rhoi gwobr raffl i'r digwyddiad 'In it with Isaac' ar 24/8/25? Cytunwyd y dylid cefnogi'r achos pwysig hwn a rhoi £50.
- Diweddariad Pwyllgor Apêl Eisteddfod y Garreg Las 2026 - Efailwen, Llanglydwen, Login, Cwmeils, a Hebron – adroddwyd bod yr ymdrechion codi arian yn mynd yn dda iawn. Cynhaliwyd Helfa Drysor Ceir ar Nos Fawrth 15/7/25, yn dechrau a gorffen yn Bar Beca. Bu'n llwyddiannus gan godi £375. Diolchwyd i FfJ a RhJ am drefnu'r helfa drysor. Mae £5,315 wedi cael ei godi erbyn hyn, yn gadael £1,685. Y digwyddiad nesa yw Cyngerdd yng Nghaffi Beca ar 19/9/25 ac mae'r cyfarfod nesa ar 20/8/25.
- Contract Cyflogaeth y Clerc – bydd hwn yn cael ei ddiweddaru cyn gynted i adlewyrchu'r codiad cyflog.

**11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 30 Medi 2025 am 7.30yh

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 8.30yh*

Arwyddwyd

Cadeirydd: T R Davies ........................................ Dyddiad: 30/9/2025